wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

RHYBUDD CADARNHAU GORCHYMYN DIDDYMU LLWYBR CYHOEDDUS 2016
DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 118
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM BROUGHTON 4 (RHANNOL)
YNG NGHYMUNED BRYMBO

Ar 14 Rhagfyr 2016, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Gorchymyn a enwir uchod a wnaed o dan adran 118 Deddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw diddymu'r llwybr troed cyhoeddus a ddangosir gan linell fras ddi-dor ar fap y Gorchymyn ac fel y disgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn wedi eu gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam ac yn y Swyddfa Bost, Canolfan Fenter Brymbo, Ffordd y Chwyth, Brymbo o 9.00am tan 4.30pm dydd Llun i ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Os dymuna unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn gwestiynu ei ddilysrwydd neu unrhyw ddarpariaeth y mae'r Gorchymyn yn ei gynnwys, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail bod unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno, fel y'i diwygiwyd, neu unrhyw reoleiddio a wnaed o dan y Ddeddf, heb gael cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 2 y Ddeddf fel y'i gweithredir gan baragraff 5 o Atodlen 6 y Ddeddf, gall ef neu hi wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 19/12/16.

ATODLEN

DISGRIFIAD O SAFLE'R LLWYBR NEU FFORDD BRESENNOL

Lled gyfan y rhan hwnnw o Lwybr Cyhoeddus Broughton 4 yng Nghymuned Brymbo a nodir gan linell drom ddi-dor sy'n cychwyn o Holland Road ar bwynt A (SJ 2981 5415) ar Fap y Gorchymyn ac yn parhau'n gyffredinol tua'r dwyrain am tua 28 medr hyd at Green Road ar bwynt B (SJ 2984 5415) ar Fap y Gorchymyn.

Dyddiedig 19 Rhagfyr 2016.

Trevor Coxon
Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol
Neuadd y Dref
WRECSAM LL11 1AY

MR/SH/Broughton 4(part)(site)